Porth Iechyd a Gofal Cymdeithasol E3 (Llawn Amser)

Mae Porth Lefel Mynediad 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi cyflwyniad cefnogol ac ymarferol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngrŵp Colegau NPTC. Mae'r cwrs yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, cyflogadwyedd, llythrennedd a rhifedd, gan helpu myfyrwyr i feithrin hyder, annibyniaeth ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu a gwaith. Bydd myfyrwyr yn archwilio sefyllfaoedd gofal iechyd a chymdeithasol go iawn trwy weithgareddau ymarferol a datblygiad personol er mwyn paratoi ar gyfer dilyniant neu gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol.

Gofynion Mynediad

Nid oes angen gwybodaeth na chymwysterau blaenorol. Rhaid i fyfyrwyr allu dangos y gallu i weithio o leiaf ar Lefel Mynediad 3 a dangos parodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, gwaith tîm a datblygiad personol.

Rhagolygon Gyrfa

Ar ôl cwblhau'r cwrs, gall myfyrwyr symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngrŵp Colegau NPTC. Gall llwybrau dilyniant eraill gynnwys interniaethau â chymorth, gwaith gwirfoddol, neu ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy i gefnogi cyflogaeth a byw'n annibynnol yn y dyfodol. Lle bo hynny'n briodol ac yn gyraeddadwy, gall myfyrwyr weithio tuag at gymhwyster BTEC.

Asesiad

Caiff myfyrwyr eu hasesu trwy waith cwrs, gweithgareddau ymarferol a chanlyniadau unigol sy'n seiliedig ar dargedau. Caiff cynnydd a chyflawniad myfyrwyr eu monitro a'u cofnodi gan ddefnyddio RARPA (Cydnabod a Chofnodi Cynnydd a Chyflawniad). Lle bo myfyrwyr yn gallu cwrdd â'r safonau gofynnol, gallant gwblhau cymhwyster BTEC; fel arall, caiff y rhaglen ei chyflwyno fel dysgu heb ei achredu i ddiwallu anghenion unigol.

DULL ASTUDIO

FT

LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

HYD Y CWRS

Blwyddyn